

Adroddiad Atebolrwydd: Ross Griffiths, Llywydd UMCB

Wrth ymgyrchu, roedd yna bedwar prif bwynt yn fy manifest, gan gynnwys tegwch (yn cyfeirio at sicrhau fod gan fyfyrwyr Cymraeg fwy o fynediad at, neu eu bod yn fwy ymwybodol o, y cyfleusterau sydd ar gael iddyn nhw); hysbysebu gwasanaethau Cymraeg yn y Brifysgol ac UMCB i sicrhau dyfodol UMCB a'r gymuned Gymraeg ar y campws; rhwydweithio cymdeithasol a gweithio efo ysgolion lleol, adrannau'r Brifysgol a chymdeithasau i godi ymwybyddiaeth o UMCB; ac i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig ar y campws.

Ers cael fy ethol a gweithio efo aelodau o staff yr Undeb, a staff y Brifysgol, 'dwi wedi adnabod y blaenoriaethau/nodau yma:

- Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n ymwybodol o, ac sy'n defnyddio'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan UMCB, a fydd wedyn yn cynyddu'r gymuned Gymraeg 'actif'.
- Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n byw yn Neuadd JMJ er mwyn sicrhau ei dyfodol.
- Datblygu a pharhau efo ymdrechion UMCB i gysylltu â dysgwyr Cymraeg.
- Cynyddu presenoldeb UMCB ar y campws trwy hysbysebu cymuned UMCB, ei bwrpas a'r ddealltwriaeth amdano.

I gyrraedd y nodau hyn, dechreuais i ymgyrch o'r enw 'Dangos Diwylliant' er mwyn gwella presenoldeb UMCB a diwylliant Cymreig ar y campws. Mi fydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddatblygu ein prosiect gwirfoddoli 'Ffrind Cymraeg' er mwyn darparu awyrgylch defnyddiol a chroesawgar i ddysgwyr Cymraeg iddynt allu ymarfer eu sgiliau Cymraeg; hysbysebu'r cyfleusterau Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr a staff eu defnyddio yn y Brifysgol yn well; manteisio ar ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn hysbysebu ein digwyddiadau a'n cyfleoedd i gysylltu efo myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr; bod yn agored i newidiadau ac awgrymiadau er mwyn cefnogi myfyrwyr i arddangos eu Cymreictod ym mhob agwedd; datblygu perthnasoedd is-gymdeithasau UMCB efo cymdeithasau eraill er mwyn gallu arddangos ein talentau; sicrhau fod cyfieithiadau ar gael ym mhobman er mwyn helpu nid yn unig myfyrwyr Cymraeg ond dysgwyr hefyd; 'Cân yr Wythnos', i ddangos fod yna sîn gerddoriaeth Cymraeg fel ffordd gynnil o hyrwyddo diwylliant Cymraeg ac i ddathlu myfyrwyr Cymraeg a llwyddiannau cenedlaethol.

Ar ben hyn, ynglŷn â datblygu ymdrechion i gysylltu â dysgwyr Cymraeg, mae trafodaethau wedi digwydd efo staff o Ganolfan Bedwyr, Dysgu Cymraeg Bangor, Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ac yr Ysgol Addysg am sut all UMCB a Ffrind Cymraeg gydweithio efo nhw a'u darparu nhw efo

rhywle i ymarfer eu sgiliau Cymraeg, i gyd-fynd â'r gwersi Cymraeg maen nhw'n cael yn barod yn ystod eu cyrsiau. Hyd hyn, 'dw i wedi cael sgysiaiau cynhyrchol efo Canolfan Bedwyr, Dysgu Cymraeg Bangor, ac Ysgol Feddygol Gogledd Cymru; fodd bynnag, dydw i heb dderbyn ateb eto gan yr Ysgol Addysg, ond 'dw i'n edrych mewn i gysylltu efo'r aelodau perthnasol o staff. Yn ogystal â hyn, mae newid mewn agweddau cymdeithasol ymysg aelodau pwyllgor UMCB, a ddangoswyd yn ein cyfarfod, wedi cadarnhau'r angen i fod yn fwy croesawgar a deniadol i ddysgwyr, a fydd yn fanteisiol i'r gymuned ehangach o fyfyrwyr Cymraeg, nid dim ond dysgwyr.

Mae'r sefyllfa yn Neuadd JMJ yn achosi poen meddwl achos ein bod ni'n ei ffeindio hi'n anodd llenwi'r adeilad i hyd yn oed 50% o'i gapasiti. Fodd bynnag, erbyn diwedd y flwyddyn nesaf, rydw i'n obeithiol iawn y galla i wneud popeth yn fy ngallu i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n byw yn Neuadd JMJ i 70%. I wneud hyn, 'dw i'n bwriadu gweithio'n agos efo'r adran recriwtio, marchnata, a'r Swyddfa Neuaddau i hysbysebu'r neuadd yn fwy effeithiol, a darparu mesurau fydd yn helpu i lenwi stafelloedd. Mae'r rhain yn cynnwys fflatiau di-alcohol, wedi ei selio ar ddemograffeg myfyrwyr sy'n newid; annog nyrsys Cymraeg i fyw yn JMJ; gwella hysbysebu'r neuadd i ddysgwyr Cymraeg yn sylweddol; a gwneud ei statws fel neuadd cyfrwng Gymraeg a neuadd i **DDYSGWYR** yn fwy amlwg. Efo hyn, mae'r syniad o gael myfyrwyr 3^{ydd} blwyddyn i fyw yn Neuadd JMJ. Er bod hyn yn opsiwn sy'n bodoli'n barod, dydi'r ymwybyddiaeth o amgylch yr opsiwn bron ddim yn bodoli ymysg myfyrwyr. Felly, efo help gan staff myfyrwyr, 'dw i wedi creu arolwg i gasglu barn myfyrwyr a'u hymwybyddiaeth o'r opsiwn hwn.

Mae trafodaethau hefyd yn digwydd i sefydlu'r rôl Llywydd JMJ fel mentor ar gyfer neuaddau'r brifysgol er mwyn sicrhau fod yna mentor sy'n siarad Cymraeg bob blwyddyn, o ystyried fod rôl Llywydd JMJ yn cynnwys cyfrifoldebau mentora'n barod, heb orfod gwirio ceginau a lles; mae'n wirfoddol. Ar ben hyn, hoffwn i sefydlu ein swyddog cynhwysiant fel y llysgennad myfyriwr lles Cymraeg. Mi fysa'r ddwy rôl yn sicrhau fod gan fyfyrwyr Cymraeg aelodau cyfarwydd y gallent ymddiried ynddynt ar y corff myfyrwyr, fel cynrychiolwyr a rhwydwaith gefnogi, a bod gan UMCB gysylltiadau clir efo'r brifysgol a chefnogaeth myfyrwyr.

Yn olaf, 'dw i'n addo gwneud fy ngorau glas i sicrhau cynnydd efo'm mlaenoriaethau a'n nodau i; mi fydd rhai o'r nodau a'r syniadau hyn yn cymryd amser ac ymdrech trwy'r flwyddyn. Felly, falle bydd y cynnydd yn ymddangos yn araf, ond peidiwch â phoeni, fel eich Llywydd UMCB, rydw i'n gweithio'n galed i ddod a newid cadarnhaol i chi.

